Eich hawliau cyfreithiol a'ch cyfrifoldebau

I rieni sy'n byw ar wahân

Cynhaliaeth Plant opsiynau

(h) Hawlfraint y Goron 2009

Dim ond canllaw ydy'r daflen yma ac nid yw'n cynnwys pob sefyllfa. Ni ddylid ei chymryd fel bod yn rhoi cyngor cyfreithiol. Rydym wedi gwneud ein gorau i geisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen yma yn gywir fel ym mis Ebrill 2010. Ond, nid yw'n cwmpasu popeth a gall fod yn anghywir mewn amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith. Gall eich sefyllfa chi ddibynnu yn union ar eich amgylchiadau penodol a dylech geisio cael mwy o wybodaeth arbenigol annibynnol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ariannol yn seiliedig ar y wybodaeth yn y daflen yma. Ceir rhestr o fudiadau eraill ar ddiwedd y daflen yma a gallai'r rhain hyn gynnig cyngor manwl i chi.

EMA-CL0001W - (06/2011)

ISBN 978-1-84947-712-3

Cynnwys

Y daflen yma 2

Sut gall y gwasanaeth Opsiynau Cynhaliaeth Plant eich helpu? 3–4

Fy hawliau cyfreithiol a'm cyfrifoldebau 5–8

Rwyf yn briod ond rydym yn gwahanu 9–12

Byw gyda'ch gilydd ond heb fod yn briod 13–14

Help gyda chostau cyfreithiol 15-16

Delio gyda thrais yn y cartref 17

Mudiadau defnyddiol eraill: Manylion cyswllt 18–22

Sut i archebu ein taflenni eraill 24

Y daflen yma

Mae'r daflen yma yn rhoi gwybodaeth ddiduedd i chi am eich opsiynau a'ch hawliau fel rhiant.

Ar gyfer bwy mae'r daflen yma?

Mae'r daflen ar eich cyfer chi os ydych yn rhiant i blentyn a'ch bod wedi gwahanu neu'n ystyried gwahanu oddi wrth y rhiant arall. Bydd o help os ydych:

- yn gyfrifol am brif ofal dyddiol eich plentyn, neu
- yn byw ar wahân i'ch plentyn ac nad chi ydy'r prif ofalwr dyddiol.

Gallai'r daflen yma hefyd fod yn ddefnyddiol i chi os ydych yn warcheidwad, perthynas neu'n unrhyw un arall sy'n bryderus am deulu sy'n byw ar wahân.

Sut gall y daflen yma eich helpu

Mae'r daflen yn rhoi gwybod i chi am:

- rhai o'r pethau y gallai fod angen i chi eu hystyried wrth wahanu oddi wrth riant arall eich plentyn
- eich cyfrifoldebau a'ch hawliau cyfreithiol os ydych am wahanu
- sut gall bod yn briod, neu fyw gyda'ch gilydd heb fod yn briod, effeithio ar eich hawliau
- yr opsiynau sydd ar gael er mwyn trefnu cynhaliaeth plant
- pethau ymarferol a mudiadau defnyddiol allai eich helpu.

Sut gall y gwasanaeth Opsiynau Cynhaliaeth Plant eich helpu?

Mae Opsiynau Cynhaliaeth Plant yma i helpu gyda chwestiynau fel:

- Beth yw cynhaliaeth plant a sut gallaf wneud y trefniadau priodol?
- Sut allaf wybod beth sydd orau ar gyfer fy mhlentyn a fi?
- Sut gallaf wneud cytundeb teuluol?
- Ble gallaf gael help?

Gallwn roi gwybodaeth a chymorth cyfrinachol a diduedd i chi am ddim drwy ein llinell gymorth, ein gwefan, a'n gwasanaeth wyneb yn wyneb.

Gallwn egluro yn union beth yw cynhaliaeth plant a pham ei bod yn bwysig.

Yna, gallwn eich helpu i wneud trefniadau (a gwneud iddynt lwyddo).

Os oes gennych drefniadau yn barod ond nad yw hyn yn gweithio, gallwn eich helpu i ystyried sut gallwch wneud i hyn lwyddo eto.

Help ychwanegol

Yn aml, rhaid i rieni sy'n byw ar wahân ddelio gyda phethau anodd ac ymarferol fel arian, gofal plant tra yn y gwaith, teimlo'n ddig neu o dan straen.

Nid ydym yn arbenigwyr yn y meysydd yma, ond gallwn eich rhoi mewn cysylltiad gyda mudiadau arbenigol allai eich helpu.

Cewch ein manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.

Mae ein gwasanaeth yn cael ei gynnal gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant.

Cysylltwch gyda ni

Gallwch ffonio ein llinell cymorth am ddim* ar **0800 988 0988** a siarad gyda rhywun heddiw. Rydym ar agor o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a 9am i 4pm ar ddydd Sadwrn.

Mae ein pobl wedi cael hyfforddiant arbennig er mwyn rhoi gwasanaeth a chymorth diduedd am gynhaliaeth plant. Mae ein gwasanaeth ar gael i unrhyw riant yng Nghymru, Lloger neu'r Alban.

Gallwch hefyd fynd i'n gwefan yn **www.cmoptions.org**

Os ydych yn warcheidwad, perthynas neu ffrind, neu os oes gennych ddiddordeb proffesiynol mewn cael gwybod mwy am gynhaliaeth plant, efallai y gallwn eich helpu chithau hefyd.

* Mae galwadau ffôn i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond gallech orfod talu os byddwn yn defnyddio cwmni arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Beth yw fy hawliau cyfreithiol a'm cyfrifoldebau?

Pan fyddwch yn gwahanu neu'n byw ar wahân i'r rhiant arall, bydd nifer fawr o drefniadau y byddwch angen eu gwneud ar gyfer y dyfodol. Gall y rhain gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer rhannu eich asedau (eiddo ac arian), a dod i gytundeb am ble fydd eich plentyn neu blant yn byw, a sut y byddant yn cael eu cynnal yn ariannol.

Bydd deall eich hawliau cyfreithiol a'ch cyfrifoldebau yn eich helpu i wneud penderfyniadau am y trefniadau hyn, yn enwedig penderfyniadau am les eich plentyn.

Beth yw fy nghyfrifoldebau fel rhiant?

"Cyfrifoldeb rhiant" yw'r enw cyfreithiol am y dyletswyddau sydd gan riant i'w plentyn. Mae'n cynnwys materion fel darparu cartref i'r plentyn a'u gwarchod, yn ogystal â darparu ar gyfer addysg y plentyn a bod yn gyfrifol am eiddo'r plentyn.

Hefyd mae gan unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant hawliau penodol ynglŷn â'u plentyn. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel dewis pa grefydd bydd y plentyn yn ei ddilyn a'r hawl i gyswllt gyda'r plentyn, os nad ydynt yn byw gyda nhw.

Mae gan bob rhiant (gan gynnwys rhieni mabwysiadol) ddyletswydd gyfreithiol i gynnal eu plant yn ariannol, os oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant ai peidio.

Pwy sydd gyda chyfrifoldeb rhiant?

Mae gan fam gyfrifoldeb rhiant am ei phlentyn yn awtomatig. Mae gan dad hefyd gyfrifoldeb rhiant awtomatig os oedd yn briod â mam y plentyn ar amser yr enedigaeth (neu pan genhedlwyd y plentyn os yn yr Alban).

Nid yw tad 'biolegol' di-briod yn cael cyfrifoldeb rhiant yn awtomatig, hyd yn oed oes oedd wedi byw gyda'r fam am gryn amser. Mae yna bedair ffordd y gall tad biolegol di-briod gael cyfrifoldeb rhiant:

- priodi mam y plentyn

- cofrestru genedigaeth y plentyn gydag enw'r tad ar y dystysgrif geni. Os yw tystysgrif y plentyn wedi ei chofrestru yn barod, yna bydd yn rhaid i'r tad ail-gofrestru. Bydd yn rhaid i'r fam gytuno a ni all unrhyw dad arall fod wedi ei enwi ar y dystysgrif yn barod (byddai hyn wedi gwneud Cytundeb Cyfrifoldeb Rhiant rhwng y person yma a'r fam)
- cael gorchymyn llys. Mae gorchymyn llys yn ddyfarniad swyddogol a wneir gan lys. Gall gorchymyn llys, mewn egwyddor, ganiatáu cyfrifoldeb rhiant i'r tad hyd yn oed os na fydd y fam am i hyn ddigwydd.

Gall tad gael cyfrifoldeb rhiant heb erioed fyw gyda'r fam.

Os byddwch yn dod yn llys-riant drwy briodi rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant, nid ydych yn rhannu'r cyfrifoldeb hwnnw yn awtomatig.

Nid yw eich cyfrifoldeb rhiant yn dod i ben os byddwch yn ysgaru neu'n gwahanu. Byddwch yn parhau gyda'r un hawliau a chyfrifoldebau am eich plentyn os byddwch yn byw gyda hwy neu beidio.

Gwneud cynlluniau ar gyfer fy mhlentyn

Mae'n werth ceisio gwneud penderfyniadau gyda'r rhiant arall am ddyfodol eich plentyn. Mae tri phrif beth y dylech gytuno arnynt:

- ble bydd y plentyn yn byw (gelwir hyn yn 'preswylio')
- sut y byddwch yn trefnu i'w gweld (gelwir hyn yn 'cyswllt')
- sut bydd y plentyn yn cael ei gynnal yn ariannol (gelwir hyn yn 'gynhaliaeth plant')

Os gallwch wneud hyn rhwng eich gilydd, nid oes angen gorchymyn llys.

Efallai byddwch hefyd angen cytuno ar bob math o bethau eraill o ddydd i ddydd fel:

- iechyd
- crefydd neu ddiwylliant
- addysg
- gwyliau

Cynhaliaeth plant

Mae'r mwyafrif o rieni eisiau beth sydd orau i'w plant hyd yn oed os ydynt yn byw ar wahân iddynt. Bydd gwneud cytundeb cynhaliaeth plant yn helpu eich plant i gael y cychwyn gorau mewn bywyd.

Mae cynhaliaeth plant yn gymorth rheolaidd, dibynnol ariannol sy'n helpu tuag at gostau byw o ddydd i ddydd plentyn. Mae'r rhiant sydd heb brif ofal y plentyn o ddydd i ddydd yn talu'r rhiant sydd â'r prif ofal o ddydd i ddydd.

Gall cynhaliaeth plant wneud gwahaniaeth mawr i blant oherwydd y gall dalu am bethau fel dillad, bwyd a phethau angenrheidiol eraill. Gallai hefyd helpu'r ddau riant gadw yn rhan o fywyd eu plant. Mae llawer o rieni yn dewis trefnu cynhaliaeth plant eu hunain. Gallwch wneud hyn heb gynnwys unrhyw un arall, neu gyda help teulu, ffrindiau neu

gyfryngwr proffesiynol. Gelwir y math yma o gynhaliaeth plant yn gytundeb teuluol. Yn syml, dyma gytundeb rhwng rhieni ynglŷn â phwy fydd yn gofalu am beth ar gyfer y plant. Gall gynnwys arian a mathau eraill o gymorth, er enghraifft, gofalu am wisg ysgol.

Mae yna sawl mantais i gael cytundeb teuluol:

- Mae'n gyflym a hwylus i'w drefnu, fel y gallwch gael eich taliadau yn syth.
- Nid oes rhaid cynnwys unrhyw un arall.
- Mae pobl yn tueddu i barchu eu haddewidion eu hunain. Pan fydd dau riant yn cytuno ar bethau gyda'i gilydd, mae taliadau yn fwy tebygol o gael eu gwneud.
- Gall helpu i gadw pethau'n gyfeillgar rhyngoch chi a'r rhiant arall.
- Gallwch wneud cytundeb hyd yn oed oes yw'r rhiant arall yn byw neu'n symud dramor.
- Nid oes rheolau pendant felly gallwch fod yn fwy hyblyg.
- Nid oes fawr ddim o waith papur i'w wneud.
- Gall gynnwys pethau eraill heblaw arian.

Os na all rhieni wneud cytundeb teuluol, efallai y byddant am ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant (CSA).

Bydd y CSA yn gweithio allan y swm o gynhaliaeth gan ddefnyddio cyfres o reolau a'i chasglu i'r rhiant sy'n brif ofalwr dyddiol y plentyn.

Mae'r CSA hefyd yn gallu ceisio dod o hyd i rieni. Os yw rhiant yn gwrthod talu'r arian sydd wedi ei weithio allan mewn achos gyda'r CSA, mae'r CSA yn gallu cymryd, ac yn cymryd camau gorfodi yn eu herbyn.

Gwneud cytundeb teuluol

Cytundeb teuluol yw pan rydych chi yn cytuno gyda'r rhiant arall faint o gynhaliaeth plant y dylid ei dalu a pha mor aml. Nid oes yn rhaid i chi gynnwys y CSA neu unrhyw un o'r mudiadau eraill wrth sefydlu cytundeb teuluol. Ond efallai y byddwch eisiau siarad gyda ni yn Opsiynau Cynhaliaeth Plant, am wybodaeth a chymorth didduedd am ddim. Gallwch ein ffonio ar radffôn 0800 988 0988 am help wrth wneud eich cytundeb eich hunain. Gallwch hefyd fynd i'n gwefan yn **www.cmoptions.org**

Unwaith byddwch wedi gwneud cytundeb teuluol, yr unig adeg fydd yn rhaid i chi ei drafod eto fydd os bydd pethau yn newid, fel eich amgylchiadau teuluol neu ariannol.

Defnyddio'r llys

Y drydedd ffordd i drefnu cynhaliaeth plant yw drwy orchymyn llys. I wneud hyn, yn gyntaf bydd yn rhaid i chi gytuno ar faint o gynhaliaeth plant sydd am gael ei dalu a pha mor aml. Yna gallwch gael y llys i droi'r cytundeb yn 'orchymyn cydsynio', sy'n ddyfarniad swyddogol a wneir gan lys.

Fel arfer bydd yn rhaid i'r ddau

riant weithio gyda chyfreithwyr i gytuno ar swm cyn gwneud cais i'r llys am orchymyn cydsynio. Mae cael gorchymyn cydsynio yn gostus, oherwydd pethau fel cyfreithwyr, a ffioedd y llys. Ni fydd cymorth cyfreithiol yn talu am y costau hyn os ydych yn mynd i'r llys er mwyn cael gorchymyn cydsynio ar gyfer cynhaliaeth plant yn unig. Dyma pam mae rhieni yn gyffredinol yn defnyddio gorchymyn llys am gynhaliaeth plant dim ond os ydynt yn mynd i'r llys am resymau eraill, fel ysgariad neu rannu eu heiddo neu asedau.

Ni allwch ofyn i'r CSA wneud cytundeb cynhaliaeth plant i chi yn ystod y 12 mis cyntaf o'r gorchymyn cydseinio.

Defnyddio'r llysoedd yn yr Alban

Mae pethau ychydig yn wahanol os ydych yn byw yn yr Alban. Gall y ddau riant weithio allan a chytuno ar gytundeb ar gyfer cynhaliaeth plant gyda'i gilydd (fel arfer gyda help gan gyfreithwyr). Gellir gwneud y cytundeb yn gytundeb cyfreithiol rhwym. Mewn rhai amgylchiadau, gellir cofrestru'r cytundeb yn swyddogol. Mae hyn yn golygu y gellir ei orfodi fel gorchymyn llys - felly os nad yw rhiant yn talu'r swm cywir o gynhaliaeth plant ar amser, bydd swyddogion llys yn casglu'r taliadau ganddynt.

Ni allwch ofyn i'r CSA wneud cytundeb cynhaliaeth plant i chi yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl i chi gofrestru cytundeb fel hyn yn swyddogol.

Ffoniwch ni yn Opsiynau Cynhaliaeth Plant ar **0800 9880 988** os hoffech i ni eich helpu i ystyried eich opsiynau neu ewch i'n gwefan yn **www.cmoptions.org**

Gwneud neu newid eich ewyllys er lles eich plentyn

Mae ewyllys yn gosod allan pwy fydd yn cael eich arian a'ch eiddo ar ôl i chi farw. Mae'n eich galluogi i benderfynu sut caiff y pethau hyn eu rhannu ac yn sicrhau darpariaeth ar gyfer eich plentyn os byddwch yn marw.

Os nad oes gennych ewyllys, bydd eich arian ac eiddo yn cael eu rheoli yn unol â'r gyfraith. Efallai na fyddwch am i hyn ddigwydd. Os ydych wedi gwahanu oddi wrth y rhiant arall efallai dylech wneud ewyllys, neu ddiweddaru'r un sydd gennych.

Efallai y bydd angen i chi feddwl am apwyntio gwarcheidwad ar gyfer eich plentyn yn yr ewyllys. Dyma berson fydd yn cymryd cyfrifoldeb am eich plentyn ar ôl i chi farw, os nad oes unrhyw un arall gyda chyfrifoldeb rhiant. Mae hyn o bwysigrwydd mawr os mai chi yw'r unig berson sydd gyda chyfrifoldeb rhiant ar gyfer eich plentyn.

Rwyf yn briod ond rydym yn gwahanu

Os oeddech yn briod neu mewn partneriaeth sifil, rydych wedi gwahanu'n gyfreithiol unwaith rydych yn byw ar wahân. Nid oes angen i chi fod wedi ysgaru na chael unrhyw ddogfen ffurfiol gyfreithiol, er yn aml bydd o help rhoi lawr yn ysgrifenedig unrhyw gytundeb y byddwch yn ei wneud ynglŷn â gwahanu. Gall cyfreithiwr eich helpu i wneud hyn yn ddogfen gyfreithiol rhwym.

Unwaith y byddwch yn stopio byw gyda'ch gilydd, byddwch yn cael eich ystyried fel bod ar wahân at bwrpas treth a budd-daliadau. Mewn gwirionedd, gallwch fod wedi gwahanu'n gyfreithiol tra'ch bod dal yn byw yn yr un cartref - cyn belled nad ydych yn cysgu neu'n bwyta gyda'ch gilydd nac yn gwneud unrhyw waith tŷ i'ch gilydd, fel golchi dillad eich partner.

Rwyf eisiau ysgariad. Beth sydd angen i fi ei wneud?

I gael ysgariad, mae'n rhaid i chi ddangos fod y briodas wedi torri lawr yn "ddiadfer". Mae hyn yn golygu fod un neu'r ddau ohonoch yn teimlo na allwch aros yn briod gyda'ch gilydd. Bydd yn rhaid i chi hefyd ddangos fod gennych 'sail am ysgariad', (gweler yr adran nesaf).

Bydd yn rhaid i chi wneud cais i'r llys i gael barnwr i gytuno fod eich priodas wedi dod i ben. Ond hyd yn oed mewn achos syml, gall gymryd sawl mis cyn bydd y barnwr yn caniatáu ysgariad. Un o'r prif resymau yw ei fod yn cymryd amser maith i benderfynu sut dylid rhannu eich asedau.

Beth yw'r seiliau am ysgariad?

Mae 5 rheswm cyfreithiol am ysgaru yng Nghymru a Lloegr (4 yn yr Alban):

1. Mae'ch partner wedi godinebu ac rydych yn teimlo na allwch bellach fyw gyda nhw (nid yw'r rheswm yma yn berthnasol i bartneriaid sifil).
2. Mae'ch partner wedi ymddwyn mewn ffordd fel na all fod yn rhesymol i ddisgwyl i chi fyw gyda nhw.
3. Mae'ch partner wedi'ch gadael am fwy na 2 flynedd (Cymru a Lloegr yn unig).

4 Rydych wedi byw ar wahân am fwy na 2 flynedd (blwyddyn yn yr Alban) ac mae'ch partner yn cytuno i'r ysgariad.
5 Rydych wedi byw ar wahân am 5 mlynedd (2 flynedd yn yr Alban). Nid oes angen i'ch partner gytuno.

A yw partneriaid sifil yn cael ysgaru?

Na, nid yw partneriaid sifil yn gallu cael ysgariad. Yn hytrach, maent yn gallu cael 'gorchymyn diddymu'. Mae hyn yn orchymyn cyfreithiol i ddweud fod y bartneriaeth wedi dod i ben. Mae 4 rheswm am ddiddymu yng Nghymru a Lloegr, a 3 yn yr Alban. Mae'r rhesymau'r un fath ag am ysgariad, heblaw am odinebu (nid yw'n gymwys i bartneriaethau sifil).

Oes angen cyfreithiwr arnaf i gael ysgariad?

Os ydych yn ystyried ysgaru a bod materion ariannol i'w hystyried, efallai y bydd o ddefnydd i chi i gael rhywfaint o gyngor arbenigol gan gyfreithiwr. Gallent ddweud wrthych beth yw'ch opsiynau - a'r gost debygol am bob un. Yn y diwedd, efallai y byddwch yn penderfynu y byddai'n well petaech yn datrys pethau eich hunan, ond o leiaf rydych yn deall lle rydych yn sefyll yn gyfreithiol.

I ddod o hyd i gyfreithiwr sy'n gallu'ch cynghori os byddwch yn gwahanu, ffoniwch linell gymorth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4345,** neu cysylltwch gyda Cyngor Ar Bopeth yn **www.citizensadvice.org.uk**

Beth mae'r llys yng Nghymru a Lloegr yn ei ystyried wrth rannu asedau

Mae'r llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn cymryd nifer o ffactorau i ystyriaeth wrth benderfynu pwy sy'n cael beth. Maent yn cynnwys:

- lles y plentyn neu blant, a'r costau o edrych ar eu hôl yn y dyfodol
- incwm y ddau ohonoch, faint fyddwch yn gallu ei ennill ac unrhyw eiddo rydych yn berchen arno nawr neu y gallwch fod yn berchen arno yn y dyfodol
- yr anghenion ariannol a chyfrifoldebau sydd gan bob person, neu sy'n debygol o fod ganddynt yn y dyfodol
- safon byw'r teulu cyn iddo chwalu
- oed pob person a hyd y briodas neu bartneriaeth sifil
- unrhyw anabledd corfforol neu feddyliol sydd gan y ddau berson
- y cyfraniadau mae bob person wedi eu gwneud, neu'n eu gwneud yn y dyfodol, er lles y teulu. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ôl cartref neu ofalu am y teulu
- gwerth unrhyw fudd-daliad (er enghraifft pensiwn) i'r ddau berson a fyddai'n cael ei golli oherwydd diwedd priodas neu bartneriaeth sifil
- os yw un rhiant wedi ymddwyn yn ddrwg tuag at y llall. Bydd y llys ond yn ystyried hyn os byddai'n annheg peidio.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i siarad gyda chyfreithiwr. Gallent

eich cynghori ar beth mae llys yn debygol o benderfynu yn eich achos, fel y gallwch ddechrau trafod gyda'ch cynbartner.

Oes angen i ni werthu ein cartref?

Dim yn angenrheidiol. Mae gennych nifer o opsiynau. Er enghraifft, gallwch:

- newid y gyfran sydd gan y ddau ohonoch yn y cartref
- cytuno oedi gwerthiant y cartref yma hyd at ryw dro yn y dyfodol
- penderfynu rhwng eich gilydd ar sut gellir rhannu'r arian o'r gwerthiant
- penderfynu rhwng eich gilydd pwy fydd yn talu'r morgais.

Os na allwch gytuno ar unrhyw un o'r rhain, bydd barnwr yn gallu gwneud gorchymyn llys ar eich cyfer.

Mae'n bwysig penderfynu ble fydd y plentyn yn byw cyn penderfynu os ydych am werthu eich tŷ neu beidio.

Beth all llys ei wneud?

Mae gan y llys bwerau i wneud gorchmynion ynglŷn ag arian cwpl yn ystod gweithgareddau ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil. Byddai'n gwneud synnwyr i chi gymryd cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr am eich sefyllfa. Gall llys wneud gorchmynion am:

- taliadau rheolaidd i neu gan eich cynbartner. Gall y rhain fod am gyfnod penodedig neu hyd nes bydd un ohonoch yn marw, neu y bydd y cynbartner sy'n derbyn y taliadau yn ail briodi
- taliadau rheolaidd am gynhaliaeth plant i'r rhiant mae'r plentyn yn byw gyda nhw fel arfer
- cyfandaliad i neu gan eich cynbartner (ac am eich plentyn os bydd angen)
- gwerthiant eiddo neu dir
- trosglwyddo eiddo neu asedau i un partner gan y llall
- rhewi asedau (fel na allent gael eu gwerthu) neu, os ydynt eisoes wedi eu gwerthu, gwrth-droi'r gwerthiant
- eich bod chi neu'ch cynbartner yn cael canran o gronfa bensiwn y llall. Gallai hyn olygu gorfod rhannu'r gronfa nawr fel eich bod yn cael cronfa bensiwn eich hunan, neu gael taliad ohono.

Oes bosib osgoi mynd i'r llys?

Dim yn gyfan gwbl. Bydd yn rhaid i chi ddefnyddio'r llysoedd os byddwch eisiau ysgariad neu ddiddymiad o bartneriaeth sifil. Ond hyd yn oed os gwnewch hyn, nid oes angen i chi fynychu gwrandawiad llys bob amser. Os yw'r ddau ohonoch yn cytuno i'r ysgariad neu ddiddymiad, ni fydd angen i'r un ohonoch fynychu'r llys. Gellir delio gyda'r achos cyfan ar bapur.

Defnyddio cyflafareddu er mwyn dod i gytundeb

Os ydych yn ystyried ysgaru neu ddiddymu partneriaeth, dylech chi a'r rhiant arall ddod i gytundeb am eich plentyn (neu blant) a'ch arian.

Un ffordd o wneud hyn yw drwy ddefnyddio cyfreithiwr. Os na allwch ddod i gytundeb fel hyn,

efallai bydd yn rhaid i chi fynd i'r llys a bydd barnwr yn penderfynu ar eich rhan.

Mae cyflafareddu yn ffordd arall i'w ystyried a gall fod yn llai o straen. Gyda chyflafareddu, byddwch chi a'r rhiant arall yn dod at eich gilydd gydag un neu fwy o gyflafareddwyr hyfforddedig i weld os allwch ddod i gytundeb. Fel arfer mae'n rhaid i chi dalu am wasanaeth cyflafareddu. Er hyn, efallai y bydd yn rhatach i chi wneud hyn nag i dalu am gyfreithiwr i'ch cynrychioli a mynd drwy wrandawiad llys. Mantais arall yw bod y broses o gyflafareddu yn gallu eich helpu chi a'ch partner i weithio'n well gyda'ch gilydd. Gall hyn fod yn bwysig pan fyddwch yn gwneud trefniadau ar gyfer eich plentyn.

The Family Mediation Helpline can tell you more about how mediation works and how to find a mediator in your area. Go to **www.familymediationhelpline.co.uk** or call **0845 60 26 627**

Rydym yn byw gyda'n gilydd ond heb briodi

Nid yw'r system gyfreithiol yn gwbl addas ar gyfer pobl sy'n byw gyda'i gilydd ond sydd heb briodi. Mewn rhai rhannau o'r gyfraith byddwch yn cael eich ystyried fel pe baech yn briod, ac mewn rhannau eraill cewch eich trin yn wahanol.

Yng Nghymru a Lloegr, nid yw byw gyda'ch gilydd yn rhoi unrhyw hawliau cyfreithiol i chi nac yn golygu bod gennych unrhyw ddyletswydd na chyfrifoldeb tuag at eich gilydd. Fodd bynnag, mae gennych dal gyfrifoldeb ariannol i'ch plentyn - hyd yn oed os nad oes gennych gyfrifoldeb rhiant.

Mae 'priodas cyfraith gwlad' yn hen ymadrodd am bobl sy'n byw gyda'i gilydd sydd heb briodi. Nid oes angen i chi gymryd unrhyw gamau cyfreithiol i ddirwyn y math yma o berthynas i ben. Yng Nghymru a Lloegr, nid oes gan briodas cyfraith gwlad unrhyw statws cyfreithiol o gwbl.

Os byddwch yn gwahanu ac yn gallu cytuno ar drefniadau eich hunan, ni fydd angen i chi fynd i'r llys i gael gorchymyn am arian neu blant.

Ni allwch wneud cais am gymorth ariannol ar eich cyfer eich hun gan y rhiant arall, ond gallwch wneud cais am gynhaliaeth er gyfer eich plentyn. Hefyd, os bydd un ohonoch yn marw, nid oes gan y rhiant arall yr hawl i etifeddu'r eiddo yn awtomatig. Yn yr Alban, mae gennych rywfaint o hawl i wneud cais am 'fantais' neu 'anfantais ariannol'. Mae hyn yn gymwys os yw un rhiant wedi elwa o'r cyfraniad ariannol a wnaed gan y llall tra'r oeddent yn byw a'i gilydd.

Trefniadau ar gyfer y cartref

Gall fod yn anodd cael trefn ar eich hawliau yn y cartref teuluol. Mae gan y llysoedd bwerau cyfyngedig iawn am beth mae bob person yn berchen arno ac yn ei gael. Fel arfer golyga hyn bod rhaid i chi selio eich cyfrannau yn y cartref ar beth

rydych wedi cytuno arno gyda'ch gilydd a pha gyfraniad mae'r ddau ohonoch wedi ei wneud i'r cartref. Yn aml mae'n anodd profi beth mae'r ddau ohonoch wedi ei ddweud neu ei wneud yn y gorffennol.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am sefyllfa eich cartref yn ein taflen 'Eich cartref - hawliau ac opsiynau'. Gallwch ei lawr-lwytho oddi ar ein gwefan yn **www.cmoptions.org** neu ein ffonio ar radffôn **0800 988 0988** i ofyn am gopi yn rhad ac am ddim.

Sut gallwn ddatrys pwy sy'n berchen ar beth?

Os ydych chi a'r rhiant arall wedi byw gyda'ch gilydd, dyma'r egwyddor gyffredinol mae'r llysoedd yn ei ddefnyddio i benderfynu pwy sy'n berchen ar bethau pan nad ydych yn briod:

- Os ydych wedi talu am rywbeth, chi sy'n berchen arno, oni bai eich bod wedi ei roi i'r person arall fel anrheg
- Os ydych wedi prynu rhywbeth gyda'ch gilydd ac wedi rhannu'r gost yn gyfartal, yna mae'n eiddo i'r ddau ohonoch yn gyfartal.
- Os byddwch wedi prynu rhywbeth allan o gronfa ar y cyd ac nid yw'n glir pwy sydd wedi cyfrannu beth, yna mae'n berchen i'r ddau ohonoch yn gyfartal.
- Os ydych wedi cyfrannu mwy at rywbeth rydych wedi ei brynu gyda'ch gilydd, dyna faint ohono fyddwch yn berchen arno.
- Os bydd y ddau ohonoch wedi cydgyfrannu eich arian i gyfrif banc rydych wedi ei drefnu i ddelio gyda threuliau teulu ar y cyd (neu bethau tebyg), byddwch yn berchen ar hanner bob un, oni bai eich bod wedi gwneud cytundeb am gael cyfraniad anghyfartal.

Efallai bydd rhai achosion ble nad yw'r rheolau uchod yn gymwys, felly ceisiwch gael cyngor cyfreithiol cyn dod i benderfyniad am eich eiddo. Mae'n werth ceisio dod i gytundeb rhwng eich gilydd oherwydd bod y gost o weithio allan pwy sy'n berchen ar beth yn aml yn fwy na gwerth yr eiddo ei hun. Ni allwch gael cymorth cyfreithiol gyda'r math yma o gais.

Help gyda chostau cyfreithiol

Mae 'Cymorth Cyfreithiol' yn helpu gyda'r gost o gyngor cyfreithiol i bobl na allant ei fforddio. Mae'n golygu y gallwch gael cyngor gan gyfreithiwr am ddim neu, mewn rhai achosion am ffi is.
Bydd eich incwm a'r math o broblem gyfreithiol sydd gennych yn pennu os byddwch yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol neu beidio.

Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr

Yng Nghymru a Lloegr, byddwch yn gallu cael cymorth cyfreithiol i helpu gyda chostau cyfreithiol sy'n ymwneud â gwahanu os byddwch yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- y rhan Credyd Gwarantedig o Bensiwn Credyd
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm.

Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol os:

- oes gennych gynilion neu asedau werth llai na £8,000, ac
- mae'ch incwm misol (cyn treth) yn llai na £2,657, ac
- mae'ch incwm gwario misol (beth sy'n weddill ar ôl didynnu Yswiriant Gwladol, treth, rhent neu forgais a threuliau eraill) yn llai na £733, neu
- rydych yn dioddef trais yn y cartref neu yn cael eich cam-drin.

Nid yw cael cymorth cyfreithiol yn golygu'n angenrheidiol na fyddwch yn gorfod talu am gyfreithiwr o gwbl. Mewn rhai achosion, mae'n golygu na fyddwch yn gorfod talu'r swm llawn.

Mae'r wybodaeth yma yn gywir hyd y gwyddom. Fodd bynnag, mae rheolau yn gallu newid a dylech gysylltu gyda'r mudiad a restrir am fanylion diweddaraf o'r help cyfreithiol efallai y byddwch yn gymwys iddo.

I'ch helpu i weld os ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, defnyddiwch y cyfrifydd cymorth cyfreithiol ar wefan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, **www.communitylegaladvice.org.uk** neu ffoniwch y llinell gymorth ar **0845 3454345**.

Roedd y rhifau uchod yn gywir yn Awst 2009.

Delio gyda thrais yn y cartref

Mae'r adran yma ar gyfer unrhyw un sydd wedi dioddef, neu sydd yn dioddef o drais yn y cartref. Er nad ydym yn arbenigwyr yn y maes yma, rydym yn gwybod y gall trais yn y cartref fod yn rheswm i rieni wahanu. Gall hefyd effeithio ar yr emosiynau rydych chi a'ch plentyn yn eu teimlo. Dyma wybodaeth allweddol am yr help sydd ar gael i chi.

Beth yw trais yn y cartref?

Trais yn y cartref yw pryd bynnag bydd person yn ymddwyn mewn ffordd sy'n fygythiol neu'n dreisgar neu sy'n cam-drin eraill yn y teulu, partner, neu gynbartner. Gall hyn fod yn seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol.

Nid ydych ar eich pen eich hunan

Os ydych yn dioddef o drais yn y cartref, nid ydych ar er eich pen eich hunan. Mae trais yn y cartref yn gyfrifol am bron i chwarter pob trosedd treisgar a gofnodir yng Nghymru a Lloegr.

Ond mae sawl un wedi dianc rhag partneriaid sy'n eu cam-drin ac wedi gallu mynd ymlaen i fyw heb ofn.

At bwy allaf droi?

Gallwch gysylltu gyda'r mudiadau arbenigol a restrir yma:

- Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref **0808 80 10 800**
- Lloegr – National Domestic Abuse 24 – hour Helpline, **0808 200 0247**
- Yr Alban – Scottish Domestic Abuse Helpline, **0800 027 1234**
- Dyn Cymru Helpline (help i ddynion sy'n dioddef) **0808 801 0321**.

Mae mwy o wybodaeth hefyd ar gael:

- Gall eich meddyg teulu eich cyfeirio chi a'ch plentyn at fudiad lleol am gymorth emosiynol neu seicolegol.
- Ceir Uned Diogelwch Cymunedol ym mhob gorsaf heddlu.
- Gallai'ch awdurdod lleol fod a dyletswydd i roi llety argyfwng i chi.
- Mae gan y Gwasanaethu Cymdeithasol ddyletswydd i helpu unrhyw blentyn sydd angen llety argyfwng.
- Gall llys wneud gorchymyn i gadw'r person sy'n eich cam-drin i ffwrdd oddi wrthych.

Mudiadau defnyddiol eraill: Manylion cyswllt

Cynhaliaeth plant

Asiantaeth Cynnal Plant (CSA)
Ffoniwch y Llinell Gymorth Cymraeg ar **08457 138 091** (9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
Ffôn testun **08457138 099**
www.asiantaethcynnalplant.gov.uk

Trais yn y cartref a chamdriniaeth

Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref Cymru
Llinell gymorth am ddim sy'n cynnig gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol i unrhyw un sy'n dioddef cam-drin yn y cartref neu sydd am gael mwy o wybodaeth am wasanaethau cefnogi sydd ar gael. Mae ar agor 24 awr.
Ffôn: **0808 80 10 800** (Ar agor ac am ddim 24 awr y dydd, bod dydd)
www.welshwomensaid.org

Mae'r cyrff defnyddiol a restrir yn yr adran hon yn gweithredu yng Nghymru. Ceir rhestr o gyrff tebyg sy'n gweithredu yn Lloegr yn y fersiwn Saesneg o'r daflen hon, ffoniwch ***0800 988 0988*** *i gael copi.*

Y Ganolfan Byd Gwaith
Ffôn **0800 012 1888**
(8am i 6pm o dydd Llun i ddydd Gwener)
Ffôn testun **0800 023 4888**
www.direct.gov.uk

Gyrfa Cymru
Gwasanaeth gwybodaeth am yrfaoedd i bobl o bob oed yng Nghymru.
Ffôn **0800 100 900**
www.careerswales.com

Cyllid a Thollau EM
Gwybodaeth am gredydau treth.
Ffôn **0845 302 148**9
(8.30 am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
Ffôn testun **0845 300 3909**
www.hmrc.gov.uk/cymraeg

National Debtline
Ymgynghorwyr arbenigol sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim a chymorth i ddelio gyda dyled bersonol.
Ffôn **0808 808 4000**
(9am i 9pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9.30 am i 1pm ar ddydd Sadwrn, gyda gwasanaeth gadael neges 24 awr)
www.nationaldebtline.co.uk

www.direct.gov.uk
Gwefan y Llywodraeth gyda gwybodaeth am bynciau fel magu plant, arian, budd-daliadau a'ch hawliau.

Cyngor Ar Bopeth (CAB)
Gwybodaeth am ddim a chyngor am bynciau amrywiol fel y gyfraith, cartrefi a dyled. I ddod o hyd i'ch swyddfa CAB leol edrychwch yn y llyfr ffôn neu defnyddiwch y wefan i ddod o hyd i'r agosaf.
www.citizensadvice.org.uk

Galw Iechyd Cymru
Gwybodaeth a chyngor am iechyd, salwch a gwasanaethau iechyd.
Ffôn **0845 4647**
(24 awr y dydd, bob dydd)
www.nhsdirect.nhs.wales

Eich cartref

Shelter Cymru
Gwybodaeth a chyngor am ddim i unrhyw un gyda phroblemau tai.
Ffôn **0808 800 4444**
(09.30am i 4.30pm, ddydd Llun i ddydd Gwener)
www.shelter.org.uk

Cartrefi Cymunedol Cymru
Y corff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru, pob un yn gweithredu heb elw ac yn cynnig tua 114,000 o gartrefi a gwasanaethau tai ledled Cymru.
Ffôn **029 2055 7400**
www.chcymru.org.uk

Rhieni sy'n byw ar wahân

Centre for Separated Families
Cyngor a chymorth i rieni ac i bobl eraill mewn teuluoedd sydd wedi gwahanu.
www.separatedfamilies.info

Families Need Fathers
Gwybodaeth i rieni ac maent yn cynnal cyfarfodydd cymorth agored yn lleol.
Ffôn **0300 0300 363**
(6pm i 10pm, ddydd Llun i ddydd Gwener)
www.fnf.org.uk

Gingerbread
Cyngor a chymorth ymarferol i rieni unigol. Mae cynghorwyr arbenigol yn ateb y llinell gymorth, ceir digonedd o wybodaeth ar y wefan ac mae hyfforddiant ar gael hefyd. Maent hefyd yn ymgyrchu i wella bywyd ar gyfer bob teulu un rhiant. Gan fod Gingerbread yn elusen genedlaethol, mae'r cyfan am ddim.
Llinell Gymorth Rhieni Unigol – ffoniwch **0808 802 0925** am ddim
(Dydd Llun – 10am i 6pm, Dydd Mawrth/Iau/Gwener – 10am i 4pm a dydd Mercher – 10 am i 1pm a 5pm i 7pm)
www.gingerbread.org.uk

Family Lives
Cyngor a chymorth i unrhyw un sy'n gweithredu fel rhiant, gan gynnwys llys-rieni a neiniau a theidiau.
Ffôn **0808 800 222**
(cyfrinachol ac am ddim, 24 awr y dydd, bob dydd)
www.familylives.org.uk

Cyngor cyfreithiol

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol
Gwasanaeth cyfreithiol am ddim yng Nghymru a Lloegr a ariennir gan y Llywodraeth sy'n cynnig cyngor am ddim i'r rhai hynny sy'n gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.
Ffôn **0845 345 4345**
(9am i 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Codir o leiaf 4c y funud am alwadau)
www.legalservices.gov.uk/cymru/cyngor_cyfreithiol_cymunedol.asp

Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru
Gweithia CAFCASS Cymru gyda theuluoedd a gyfeirir atynt gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr. Maent yn helpu rhieni i ddod i gytundeb ynglŷn â threfniadau ar gyfer eu plant. Ceir gwybodaeth ddefnyddiol ar eu gwefan yn ogystal ag astudiaethau achos, cyngor a chysylltiadau eraill.
Ffôn **0300 062 5380**
www.wales.gov.uk/cafcasscymru

Resolution
Cyfreithwyr teulu sy'n canolbwyntio ar anghydfodau teuluol.
Ffôn **01689 820272**
(9am i 5.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener)
www.resolution.org.uk

Cyflafareddu (Mediation)

National Family Mediation
Rhwydwaith o wasanaethau cyflafareddu teuluol ledled Cymru a Lloegr sydd ddim yn gwneud elw. Maent yn cynnig help i gyplau sydd wedi neu heb briodi, ac sydd yn y broses o wahanu neu ysgaru.
Ffôn **0300 4000 636** (9am i 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener)
www.nfm.org.uk

Relate Cymru
Yn cynnig cyngor, cwnsela perthynas, cyflafareddu a chymorth wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar eu gwefan. Gallai bod ffi am y gwasanaeth yma.
Ffôn **0300 100 1234**
www.relatecymru.org.uk

Gwybodaeth ddiduedd a chymorth i bob rhiant allu gwneud penderfyniadau am gynhaliaeth plant

Ein taflenni eraill

Gallwch archebu ein taflenni am ddim drwy ffonio **0800 958 0988**. O dan bob taflen isod, ceir disgrifiad byr o beth i ofyn amdano pan fyddwch yn ffonio. Gallwch hefyd eu lawr-lwytho o'n gwefan yn **www.cmoptions.org**

Help i wneud dewisiadau am gynhaliaeth plant:

Cynhaliaeth plant - ble i ddechrau

Ffurflen cytundeb teuluol

Y gwasanaeth Opsiynau Cynhaliaeth Plant:

Sut i wneud cwyn amdanom ni

Sut rydym yn trin eich gwybodaeth

Gwybodaeth ymarferol am y materion a wynebir wrth fagu plant ar wahân:

Eich hawliau cyfreithiol a'ch cyfrifoldebau

Eich lles chi a lles eich plentyn

Eich cartref - Hawliau ac opsiynau

Arian a chyllid

Hawliau a chyfleoedd gwaith

Gwybodaeth ddiduedd a chymorth i bob rhiant allu gwneud penderfyniadau am gynhaliaeth plant

Cysylltwch gyda ni
Rhadffôn* **0800 988 0988**
8am - 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener
9am - 4pm ar ddydd Sadwrn
www.cmoptions.org

Mae'r daflen yma hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, mewn Braille ac ar dâp sain.
Gallwch gael y rhain drwy ein ffonio ar radffôn* **0800 988 0988**

Ein rhif TexBox a'n rhif ffôn testun yw
0800 988 9 888

* Mae galwadau ffôn i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond gallech orfod talu os byddwch yn defnyddio cwmni arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau ffôn i rifau 0845 o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud gyda thâl o 6c am sefydlu r alwad. Gallech orfod talu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau ffôn i rifau 0870 o linellau daear BT gostio mwy na 8c y funud gyda thâl o 6c am sefydlu r alwad. Gallech orfod talu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffôn symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i ch darparwyr gwasanaeth faint yw costau galwadau.

EMA CL0001W (06/2011)

ISBN 978 1 84947 712 3